IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 RHIF 38

## TAI

## DEDDF LLYWODRAETH LEOL A THAI 1989

## Cyfarwyddyd Credyd i'r Cyfrif Refeniw Tai (Cyngor Sir Penfro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *9 Mawrth 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 87(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac eitem 9 o Ran 1 o Atodlen 4 iddi(**1**), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Sir Penfro yn unol ag adran 87(2) o'r Ddeddf honno, yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Enwi, cymhwyso a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddyd hwn yw Cyfarwyddyd Credyd i'r Cyfrif Refeniw Tai (Cyngor Sir Penfro) 2026.

(2) Mae'r Cyfarwyddyd hwn wedi ei roi i Gyngor Sir Penfro.

(**1**) 1989 p. 42. Amnewidiwyd eitem 9 o Ran 1 o Atodlen 4 gan adran 127(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a pharagraffau 28 a 33(1) a (3) o Atodlen 7 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 87(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 NO. 38

## HOUSING

## LOCAL GOVERNMENT AND HOUSING ACT 1989

## The Credit to the Housing Revenue Account (Pembrokeshire County Council) Direction 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *25 February 2026* |
| *Coming into force* | *9 March 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by section 87(1) of, and item 9 of Part 1 of Schedule 4 to, the Local Government and Housing Act 1989(**1**), and after consulting in accordance with section 87(2) of that Act with Pembrokeshire County Council, give the following Direction.

**Title, application and coming into force**

**1**.—(1) The title of this Direction is the Credit to the Housing Revenue Account (Pembrokeshire County Council) Direction 2026.

(2) This Direction is given to Pembrokeshire County Council.

(**1**) 1989 c. 42. Item 9 of Part 1 of Schedule 4 was substituted by the Local Government Act 2003, section 127(1) and Schedule 7, paragraphs 28 and 33(1) and (3). The functions of the Secretary of State under section 87(1) and (2) of the Local Government and Housing Act 1989 were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Those functions were subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162(1) of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(3) Mae'r Cyfarwyddyd hwn yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol sy'n rhedeg o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026.

(4) Mae'r Cyfarwyddyd hwn wedi ei wneud ar 25 Chwefror 2026 a daw i rym ar 9 Mawrth 2026.

**Credyd i'w gario i'r Cyfrif Refeniw Tai**

**2.** Cyfarwyddir y Cyngor i gario swm o £5,500,000 o Gronfa Gyngor y Cyngor i Gyfrif Refeniw Tai y Cyngor.

**Dehongli**

**3.** Yn y Cyfarwyddyd hwn—

mae i "Cronfa Gyngor" yr ystyr a roddir i "council fund" yn adran 38(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994(1);

mae i "Cyfrif Refeniw Tai" yr ystyr a roddir i "Housing Revenue Account" yn adran 74(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Penfro.

Llofnodwyd

*Alyson Francis*
Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, ar gyfer ac ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 25 Chwefror 2026

(1) 1994 p. 19.

(3) This Direction relates to the financial year running from 1 April 2025 to 31 March 2026.

(4) This Direction is made on 25 February 2026 and comes into force on 9 March 2026.

**Credit to be carried to the Housing Revenue Account**

**2**. The Council is directed to carry the sum of £5,500,000 from the Council's Council Fund to the Council's Housing Revenue Account.

**Interpretation**

In this Direction—

"the Council" ("*y Cyngor*") means Pembrokeshire County Council;

"Council Fund" ("*Cronfa Gyngor*") has the meaning given in section 38(1) of the Local Government (Wales) Act 1994(**1**);

"Housing Revenue Account" ("*Cyfrif Refeniw Tai*") has the meaning given in section 74(1) of the Local Government and Housing Act 1989.

Signed

*Alyson Francis*
Director of Housing and Regeneration, for and on behalf of the Cabinet Secretary for Housing, Local Government & Planning, one of the Welsh Ministers

Date 25 February 2026

(**1**) 1994 p. 19.